Senedd Cymru
Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
—
Welsh Parliament
Legislation, Justice and Constitution Committee

Y Gwir Anrhydeddus Mark Drakeford AS
Prif Weinidog Cymru

22 Hydref 2020

Annwyl Mark

Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 12) 2020

Mae ein **hadroddiad** ar **Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 12) 2020** yn datgan ei bod yn fwyfwy anodd a dryslyd i'r cyhoedd gadw i fyny â'r holl newidiadau i'r prif Reoliadau.

Wrth **ymateb** i'r pwynt adrodd hwn, dywedodd Llywodraeth Cymru ei bod yn cyhoeddi fersiwn ddiwygiedig o'r prif Reoliadau, sy'n cael ei diweddaru ar ôl pob adolygiad a bod hyn yn helpu â hygyrchedd y gyfraith. Rydym yn croesawu ac yn cydnabod y cam hwn, ond yn ein barn ni nid yw'n mynd i'r afael yn ddigonol â'n pryder am y dryswch ymhlith y cyhoedd. Amlygir y pryder hwnnw nid yn unig gan yr erthygl newyddion y cyfeiriwyd ati yn ein hadroddiad, ond hefyd gan y nifer fawr o ymholiadau y mae aelodau'r Pwyllgor hwn (ac, yn ddiau, holl Aelodau'r Senedd) wedi'u cael gan aelodau o'r cyhoedd sydd wedi drysu ynghylch yr hyn y gallant ac na allant ei wneud.

Rydym yn deall y drafferth y mae'r pandemig yn ei achosi i ddeddfu mewn amgylchedd sy'n newid yn gyflym. Fodd bynnag, po fwyaf o ddryswch a geir ymhlith y cyhoedd, y lleiaf tebygol ydyw y bydd y cyhoedd yn gallu, ac yn fodlon, cydymffurfio â'r gyfraith.

Byddwn yn ddiolchgar felly pe gallech nodi pa gamau ychwanegol y gall

Senedd Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDCC@senedd.cymru
0300 200 6565

Welsh Parliament
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddLJC@senedd.wales
0300 200 6565

Llywodraeth Cymru eu cymryd i fynd i'r afael â'r dryswch sydd ymhlith y cyhoedd o ran eu dealltwriaeth o'r gyfraith sy'n gymwys ar adeg benodol.

Yn gywir

Mick Antoniw AS
Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg
We welcome correspondence in Welsh or English